# Anifeiliaid yn 'siarad' â'i gilydd

**Ydy anifeiliaid ac adar yn cyfathrebu â'i gilydd? Ydyn nhw'n gallu 'siarad' â'i gilydd?**

Wrth gyfathrebu, rydym yn defnyddio geiriau. Yn aml iawn, rydym yn defnyddio'r corff i gyfathrebu hefyd. Rydym yn chwifio'n dwylo neu'n breichiau. Rydym yn pwyntio bys neu'n edrych i gyfeiriad penodol, e.e. wrth roi cyfarwyddiadau. Rydym yn defnyddio'n hwynebau a thôn ein llais hefyd – rydym yn gwenu ac yn gwgu, yn sibrwd ac yn gweiddi.

Mae anifeiliaid yn gwneud rhywbeth tebyg. Os awn ni'n rhy agos at gi sy'n cnoi asgwrn, er enghraifft, mae'n siŵr o chwyrnu. Mae'n ein rhybuddio ni oherwydd ei fod yn meddwl ein bod yn mynd i ddwyn yr asgwrn. Mae'n bosib y bydd yn dangos ei ddannedd mewn dull bygythiol hefyd - os felly, rhaid bod yn ofalus. Os edrychwch chi'n ofalus, efallai y byddwch yn gweld y blew ar ei gefn yn codi. Pam? Mae'n ceisio gwneud i'w hun edrych yn fawr - ac yn fwy bygythiol byth!

Mae anifeiliaid yn cyfathrebu mewn ffyrdd eraill hefyd. Os bydd dau anifail yn ymladd, bydd yr anifail sy'n colli'r frwydr yn cydnabod bod y llall wedi ennill drwy wneud ystum gyda'i gorff a bydd yr enillydd yn gweiddi'n fuddugoliaethus - sylwch ar y carw coch, er enghraifft. Bryd arall, e.e. adeg paru, bydd adar yn cyfathrebu er mwyn denu partner - bydd y gwryw yn perfformio math o ddawns, gan ddangos ei blu hardd i'r fenyw. Mae rhai anifeiliaid yn defnyddio drewdod i 'gyfathrebu' hyd yn oed. Mae gan sawl anifail chwarren ac mae math o olew drewllyd yn dod allan ohoni. Mae'r anifail yn gosod yr olew mewn gwahanol leoedd er mwyn gadael neges i anifeiliaid eraill - "Fy nhir i yw hwn, cadwch draw." Efallai eich bod wedi gweld ci yn gwneud hyn wrth godi'i goes wrth fôn coeden!

Mae cyfathrebu adeg bwydo'n hynod o bwysig. Pan fydd gwylan yn cario bwyd i'w chywion, bydd yn tapio'i phig ar y ddaear o flaen y cyw - sy'n dweud wrtho fod bwyd yn barod. Er mwyn helpu'r cyw i weld ble mae'r bwyd, mae smotyn coch amlwg ar flaen ei phig melyn. Yna, mae'r cyw'n agor ei geg i ofyn am y bwyd - dyma enghraifft arall o gyfathrebu. Mae cywion bach eraill, fel cywion titw tomos las, yn gofyn am fwyd drwy 'weiddi' yn swnllyd pan fydd rhiant yn dychwelyd i'r nyth, ond os bydd perygl gerllaw, byddant yn aros yn hollol dawel.

Efallai eich bod wedi clywed adar yn canu'n hapus yn y coed a'r gwrychoedd ar ddiwrnod braf o haf. Yna'n sydyn, mae pob man yn mynd yn dawel. Pam? Yn fwy na thebyg, mae cudyll gerllaw yn hela am ei ginio. Mae'r adar wedi sylwi ac mae pob un yn aros yn dawel hyd nes y bydd yr aderyn ysglyfaethus wedi mynd heibio. Weithiau, bydd un aderyn, fel yr aderyn du, yn gweiddi ei rybudd i bawb arall - yn enwedig os bydd cath yn cerdded gerllaw. Bydd yr adar eraill i gyd yn aros yn dawel ac yn wyliadwrus hyd nes y bydd y perygl wedi mynd.

Nid adar yn unig sy'n defnyddio'u lleisiau. Mae llawer o anifeiliaid yn defnyddio'r llais i ddenu

partner, i rybuddio anifeiliaid eraill neu i'ddweud' wrth anifeiliaid eraill eu bod wedi dod o hyd i fwyd. Adeg paru, mae'r gwryw yn galw er mwyn denu'r fenyw ac i rybuddio gwrywod eraill. Mae ceirw, morfilod, ystlumod a morloi, er enghraifft, yn gwneud hyn. Ond mae'r gwningen yn greadur tawel, felly pan fydd perygl gerllaw, mae'n taro'r ddaear gyda'i phawen ac mae'r cwningod eraill yn 'clywed' y gnoc ac yn rhedeg i ffwrdd - ac mae'r cynffonnau gwyn sy'n gwibio ymaith yn rhybudd i'r cwningod eraill eu bod nhw mewn perygl a'i bod yn bryd iddynt ffoi.

Mae cŵn yn deall ac yn defnyddio rhai o'n dulliau ni o gyfathrebu: mae cŵn hela yn deall pan fydd rhywun yn pwyntio bys er mwyn dweud wrthynt am fynd i chwilio am aderyn neu anifail. Yn ogystal, mae cŵn yn gallu defnyddio'r syniad o bwyntio neu edrych ar rywbeth penodol er mwyn gofyn i'w berchennog amdano. Os yw'r ci eisiau bwyd, bydd yn edrych ar ei berchennog ac yna'n edrych ar y cwpwrdd ble mae'r bwyd yn cael ei gadw. Os yw'r perchennog yn berson deallus, bydd yn sylweddoli bod y ci yn gofyn am rywbeth i'w fwyta.

Mae rhai anifeiliaid yn defnyddio gwahanol seiniau ar gyfer dangos gwahanol fathau o berygl e.e. mae un teulu o fwncïod yn gwneud un math o sain er mwyn dangos bod perygl yn dod o'r ddaear (e.e. llew neu lewpard) ond mae'n gwneud math arall o sain os yw'r perygl yn dod o'r awyr (e.e. aderyn ysglyfaethus). Drwy wneud hyn, mae'r mwncïod eraill yn deall ble mae'r perygl ac yna maent yn gallu dewis y dull gorau o ddianc neu o chwilio am loches, e.e. rhedeg i ffwrdd i guddio neu ddringo'r coed.

Felly, er ein bod yn gallu siarad yn ddeallus a chyfathrebu mewn gwahanol ffyrdd, mae anifeiliaid ac adar yr un mor ddeallus â ni o ran cyfathrebu. Maent yn gallu cyfathrebu â'i gilydd a gyda ni yn eu ffordd eu hunain. Os ydym yn gallu deall rhai o'u dulliau cyfathrebu nhw, yna byddwn yn deall llawer iawn mwy am fyd natur ac yn gallu gwerthfawrogi nad yw anifeiliaid yn greaduriaid hurt o gwbl.